

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Cynghorwyr P. Drake, M.J.G. Morgan a J.M. Norman.

Hefyd yn bresennol: S. Murphy (Yr Ymgeisydd), K. Evans (Rheolwr Tîm Trwyddedu, Cyngor Bro Morgannwg), R. Price (Swyddog Cyfreithiol, Cyngor Bro Morgannwg), Dyfri Owen, Sarah Candy, Pete Williams, Adrienne O' Sullivan, Keith Davies, Mark Ferda, Rebecca King ac Emma Henwood (Gwrthwynebwyr y cais) a K. Bowen (Swyddog Gwasanaethau Democraidd Cyngor Bro Morgannwg).

(a) Cyhoeddiad –

Cyn cychwyn busnes yr Is-bwyllgor, darllenodd y Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democraidd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

Dywedodd y swyddog hefyd fod copi o drefn y cyfarfod ar gael i'r Aelodau Etholedig yn y papurau agenda a oedd wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod.

(b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD – Ethol y Cynghorydd P. Drake yn Gadeirydd am gyfnod gwrandawriad yr Is-bwyllgor.

(c) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(d) Deddf Trwyddedu 2003 – Caniatáu Trwydded Safle – Bwyty Hickman, 38 Heol Windsor, Penarth, CF64 1JJ (AT) –

Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i wrandawriad yr Is-bwyllgor a diolchodd i Bennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Democraidd am wneud cyflwyniadau a rhoi gwybod am y weithdrefn i'w dilyn ar gyfer y gwrandawriad fel y cynhwyswyd yn yr agenda.

Yn dilyn hynny, gwahoddodd y Cadeirydd Rheolwr y Tîm Trwyddedu i gyflwyno'r adroddiad i'r Is-bwyllgor. Dywedodd y Rheolwr Trwyddedu fod y cais gerbron y Pwyllgor am Drwydded Safle yn Hickman Restaurant, 38 Windsor Road, Penarth, Bro Morgannwg CF64 1JJ. Roedd yr Ymgeisydd yn ceisio gwerthu alcohol, adloniant wedi'i reoleiddio (heb ei reoleiddio'n rhannol) a gwerthu lluniaeth yn hwyr yn y nos. Roedd yr oriau y gofynnwyd amdanynt mewn perthynas â'r gweithgareddau trwyddedadwy uchod fel a ganlyn:

Gwerthu Alcohol - dydd Sul i ddydd Iau 10:00 tan 23:00
Dydd Gwener a dydd Sadwrn 10:00 tan 00:30.

Cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do ac yn yr awyr agored) – 23:00 tan 00:30 - dydd Gwener a dydd Sadwrn.

Lluniaeth yn hwyr yn y nos – 23:00 tan 00:30 - dydd Gwener a dydd Sadwrn.

Derbyniwyd nifer o wrthwynebiadau gan drigolion lleol a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Roedd y gwrthwynebwyr canlynol hefyd yn bresennol yn y cyfarfod i wneud eu sylwadau: Dyfri Owen, Sarah Candy, Pete Williams, Adrienne O'Sullivan, Keith Davies, Mark Ferda, Rebecca King ac Emma Henwood.

O ystyried y weithdrefn ar gyfer y gwrandawriad, gwahoddwyd yr Ymgeisydd, Mr Sean Murphy, wedyn i gyflwyno ei gais gan nodi bod rhai amodau eisoes wedi eu cytuno â Heddlu De Cymru a oedd ynghlwm yn Atodiad C yr adroddiad.

Dywedodd Mr. Murphy, Cyfarwyddwr Hickman's Restaurant Ltd., mai'r bwriad oedd agor fel bwyty teuluol gyda'r nod o beidio â chynhyrfu unrhyw un a'i fod am weithio gyda chymdogion y safle a fyddai, gobeithio, yn gwsmeriaid iddo. Dywedodd fod ei gais yn unol â lleoliadau eraill yn y lleoliad, sef The Pilot, Bears Head a Bar 44 ac nad oedd yn bwriadu agor tan yr amser y gwnaed cais amdano, ac eithrio ar achlysuron penodol ar gyfer partïon. Dywedodd Mr Murphy ymhellach wrth bawb a oedd yn bresennol ei fod yn bwriadu gweithio ochr yn ochr â'i gymdogion ac nad oedd am gael ei ystyried yr un fath â lleoliadau eraill yn yr ardal y cyfeiriwyd atynt fel sefydliadau swnllyd. Dywedodd ei fod yn hapus i drafod yr oriau, yn hapus i weithredu tan 23:00. Dywedodd Mr Murphy ymhellach ei fod yn arfer rhedeg The Pilot a'i fod yn rhan o'r cwmni Knife and Folk LTD a oedd yn rhedeg safleoedd eraill. Dywedodd ei fod eisiau gwrandawrio a gweithio gyda phawb.

Yna gofynnodd y Cadeirydd i'r holl bartïon a oedd yn bresennol a oedd ganddynt unrhyw gwestiynau i'r Ymgeisydd, Mr Murphy.

Dechreuodd Adrienne O'Sullivan (Gwrthwynebydd) drwy ofyn beth oedd y capasiti yn y lleoliad a dywedwyd bod gan y llawr gwaelod 76 sedd, bod 40 sedd i fyny'r grisiau, bod gan ardal y bar gapasiti ar gyfer 50 o bobl, bod gan ardal y mesanîn gapasiti ar gyfer 20 o bobl a bod gan yr ystafell breifat gapasiti ar gyfer 30 o bobl.

Gwnaeth Peter Williams y sylwadau canlynol: Roedd wedi bod yn falch bod yr Ymgeisydd wedi cysylltu ag ef, cyfeiriodd at faterion gyda pherchnogion safleoedd eraill a chyfeiriodd at yr oriau estynedig y gwneir cais amdanynt. Dywedodd yr Ymgeisydd mai dim ond ar gyfer partïon y byddai'r estyniad. Fodd bynnag, sylwodd

Mr Williams y byddai'r capasiti yn fwy na 200 o bobl bob yn ail benwythnos ac y byddai hyn yn achosi sŵn. Dywedodd ei fod wedi galw'r Heddlu yn y gorffennol gan roi gwybod bod yr arwyddion rhybuddio yno o ystyried yr amseroedd arfaethedig y dywedodd y byddent yn broblem i drigolion lleol, ac roedd o'r farn y byddai 23:00 ar gyfer atal gwerthu alcohol yn fwy priodol ac ystyriol i drigolion. Tynnodd sylw at The Bears Head a ddywedodd ei fod wedi achosi trafferthion lleol gyda'r cwsmeriaid yn gadael am 00:00 (hanner nos). Dywedodd Mr Williams pe bai'r cais yn mynd drwodd fel y gwnaed cais amdano, byddai'n rhaid iddo ystyried chwilio am rywle arall i fyw gan fod y cais yn ychwanegu at broblemau presennol.

Cyfeiriodd Emma Henwood at dri ymholiad a phryder: Pe bai parti'n digwydd sut oedd hi i fynegi unrhyw bryderon. Mewn ymateb dywedodd Mr Murphy y byddai ar y safle y rhan fwyaf o'r amser, yn enwedig yn y dyddiau cynnar ac y byddai'n hapus i bobl gael ei e-bost a dod i mewn i'w weld. Gallent hefyd gysylltu â'r awdurdod trwyddedu ac iechyd yr amgylchedd. Dywedodd hefyd y gallai achwynwyr gysylltu ag ef trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd Mr Murphy fod The Pilot yn lleoliad a oedd yn cael ei redeg yn dda iawn ac y byddai'r bwyty yn cael ei redeg yr un ffordd. Tynnodd Ms Henwood sylw at achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol o safle arall yr oedd ei gŵr wedi cael ei fygwth ohono, a chyfeiriodd at falŵn wedi ei adael yn y goeden y tu allan i'w safle. Dywedodd hefyd nad oedd yr awdurdod ar gyfer gwneud iawn yn dda iawn yn ei barn hi. Wrth gyfeirio at safle lleol a oedd bellach ar gau yn gynharach gofynnodd a fyddai'r Ymgeisydd yn ystyried eu gadael i mewn i'w safle ef. Dywedodd Mr Murphy, pe bai pobl eraill yn dymuno dod i'w safle, y byddai'n eu gadael i mewn pe na baent yn feddw a phe baent yn mynd i mewn o fewn oriau trwyddedu. Dywedodd Mr Murphy hefyd ei fod yn weithredwr bwyd, byddai'n rheoli unrhyw faterion a thynnodd sylw at gyfatebiaeth â safle arall yr oedd yn ei redeg yn Llanilltud a oedd hefyd yn cael ei reoli'n dda.

Gofynnodd Rebecca King a oedd yn bwriadu agor y bar bob penwythnos os cafodd yr oriau agor tan 00:00 (hanner nos) eu cymeradwyo? Dywedodd yr ymgeisydd nad dyma oedd y bwriad. Dywedodd Ms King, er ei bod yn edrych ymlaen at y bar yn agor ei bod yn poeni am ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys digwyddiadau yn cynnwys cwsmeriaid lleoliadau eraill yn ymgynnull y tu allan. Gofynnodd y Cynghorydd Norman pa amser y byddai'r archebion diwethaf yn y gegin a dywedwyd wrtho mai 21:00 fyddai hynny.

Dywedodd Mr Dyfri Owen ei fod yn falch o'r ffordd yr oedd yr adeilad yn edrych, fodd bynnag, roedd wedi mynd i wrandawriad blaenorol y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y clwb RAFA lleol ac wedi bod yn ansicr bryd hynny a oedd y penderfyniad wedi bod yn unfrydol i roi'r drwydded honno. Tynnodd sylw at yr elfen sŵn sylweddol a fyddai'n deillio o'r safle pe bai'r cais presennol yn cael ei gymeradwyo. Dywedodd Mr Murphy mewn ymateb y byddai'n fwy na pharod i'r trigolion gysylltu ag ef i drafod unrhyw faterion. Fodd bynnag, dywedodd Mr Owen nad oedd ots faint o weithiau yr oedd wedi galw'r Heddlu neu'r adran Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir yn y gorffennol yn ymwneud â'r busnes blaenorol, nid oedd unrhyw beth wedi digwydd. Dywedodd y gallai warantu'n bendant y byddai'r oriau y gwnaed cais amdanynt yn achosi niwsans, gweiddi, rhegi ac ymladd ac ati. Dywedodd hyd yn oed petaent yn bobl neis, y gallent fod yn swnllyd o hyd gydag alcohol gan gyfeirio at dacsis a phobl feddw swnllyd y tu allan i'w dŷ pan fyddai'r safle yn cau. O ystyried y broses ar gyfer hysbysu'r Gwasanaethau Rheoliadol y tu allan i oriau, dywedodd y Swyddog

Cyfreithiol am y broses gan nodi bod gwasanaeth y tu allan i oriau ar waith ar gyfer y tair ardal Awdurdod Lleol yn y Gwasanaeth. Dywedodd Mr Murphy y byddai hanner awr i orffen yfed diodydd felly pe bai'r Pwyllgor yn bwriadu cymeradwyo'r cais tan 23:00 byddai amser yfed yn gorffen am 23:30, cytunodd hefyd y gallai ardaloedd Pier a Piano fod yn aflonyddgar. Fodd bynnag, dywedodd fod ei dîm wedi'i hyfforddi'n dda ac yn gallu rheoli pobl a'i fod yn barod i weithio gyda Mr. Owen a'r holl drigolion lleol.

Dywedodd Mr Owen hefyd ei bod yn dda iawn bod yr Ymgeisydd wedi dweud y byddai'n hapus i gael ei drwyddedu tan 23:00 ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn gan mai ei bryder pe bai'r oriau y gwnaed cais amdanynt yn cael eu cymeradwyo oedd y byddai trafferth yn parhau tan 01:00 yn y bore.

Gofynnodd Sarah Candy, gan gytuno â'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebwyr eraill, sut y byddai'r sŵn o ffenestri agored yn cael ei reoli. Dywedodd Mr Murphy nad oedd ffenestri yn wynebu'r cefn a bod yr ystafelloedd yn cael eu rheoli o ran hinsawdd. Ymatebodd yr Ymgeisydd hefyd gan ddweud ei fod am weithio gyda'r gymuned ac nad oedd am gael problemau gyda chymdogion. Cyfeiriodd gŵr Mrs. Candy, a oedd yn bresennol ar yr alwad, at bolisi rheoli sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymatebodd Mr Murphy i hyn yn briodol. Cyfeiriwyd hefyd at y system echdynnu a oedd i fod i gael ei gosod a dywedodd Mr Murphy ei fod yn amod cynllunio.

Dywedodd Mr Pete Williams wrth wneud sylw pellach ei fod yn cytuno gyda'r siaradwyr a oedd wedi siarad gan ddweud bod y cyfan yn edrych yn dda ar bapur ond byddai'r realiti yn ei farn ef yn wahanol. Fodd bynnag, daeth i'r casgliad trwy ddweud y byddai'n hapus fel y byddai eraill pe bai'r drwydded yn dod i ben am 23:00.

Gan ystyried y gwrthwynebwyr eraill yn y cyfarfod, gofynnodd y Cadeirydd a oeddent am wneud unrhyw sylwadau gyda Mr Ferda a Mr. Keith Davies yn adleisio barn y gwrthwynebwyr eraill fel yr amlinellwyd uchod.

Gyda'r holl bartïon yn cael cyfle i wneud eu sylwadau a heb unrhyw bartïon eraill i ymgynghori â nhw, a heb gwestiynau pellach gan aelodau'r Is-bwyllgor, cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r Is-bwyllgor yn trafod yn breifat, gyda'r penderfyniad ar y cais yn cael ei roi i bob parti cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod a chyda chadarnhad ysgrifenedig o resymau'r Is-bwyllgor i ddilyn.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cais fel a ganlyn -

- yr awr olaf ar gyfer yr holl weithgareddau y gwnaed cais amdanynt i fod yn 23:00 o ddydd Llun i ddydd Sul;
- yr amodau fel y'u haddaswyd o fewn yr amserlen weithredu, fel y cytunwyd gyda Heddlu De Cymru mewn ffordd a ystyriwyd yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac fel y cynhwyswyd yn Atodiad C yr adroddiad gyda'r amodau.

Y rhesymau dros y penderfyniad

O ystyried y sylwadau, a gynhwyswyd yn yr adroddiad, y dystiolaeth a gyflwynwyd yn y gwrandawriad, ymatebion yr Ymgeisydd ac o ystyried Deddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd, yn enwedig yr amcanion trwyddedu a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref ynghyd â Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor.

Roedd yr Is-bwyllgor wrth ddod i'w benderfyniad yn pryderu y byddai aflonyddwch yn cael ei achosi mewn ardal breswyl yn bennaf pe bai gweithgaredd trwyddedadwy yn digwydd y tu hwnt i 23:00. Roedd yr Is-bwyllgor yn ymwybodol, gydag ychwanegu cau'r safle a phobl yn gadael yr ardal, y byddai'r awr olaf yn caniatáu i gwsmeriaid adael yr ardal o fewn amser rhesymol.